

**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y
CYNGOR - NEUADD Y SIR , LLANDRINDOD DDYDD IAU, 12 GORFFENNAF, 2018**

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Sir DW Meredith (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, B Baynham, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, S Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, C Mills, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J M Williams ac R Williams

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sir G Breeze, A W Davies, G Jones, J R Jones, N Morrison, P C Pritchard, R G Thomas, J Wilkinson, J Williams ac S L Williams

2. COFNODION

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 22^{ain} Chwefror, 8^{fed} Mawrth, 17^{eg} Ebrill, 8^{fed} Mai a 17^{eg} Mai fel cofnodion cywir.

3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganwyd buddiant gan bob aelod oedd yn bresennol yn eitem 12 Lwfans a Threuliau Aelodau 2017-18.

Datganwyd buddiannau personol ac sy'n rhagfarnu gan y Cynghorwyr Sir B Baynham, L Corfield, B Davies, D Davies, D Evans, J Evans, A Jones, K Laurie-Parry, H Lewis, S McNicholas, C Mills, D Price, G Pugh, K Roberts-Jones, R Powell, G Ratcliffe, E Roderick, D Rowlands, T Van-Rees, E Vaughan a G Williams mewn perthynas â'r hysbysiad o gynnis ar ddeiliaid bathodynau glas.

Datganwyd buddiant personol gan y Cynghorwyr Sir M Alexander, D Evans, J Evans, R. Harris, E Jones, K Laurie-Parry, I McIntosh, D Price ac R Williams mewn perthynas â'r cwestiwn ar CFfl.

Datganwyd buddiant personol ac sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Sir R Harris mewn perthynas â'r cwestiwn ar Ysgol Gynradd Pontsenni.

Datganwyd buddiant personol ac sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Sir G Price mewn perthynas â'r eitem 'cais am absenoldeb'.

4.	CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD
-----------	---------------------------------

4.1. Cwestiwn i Ddeiliaid y Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan Graham Taylor

Dangosodd yr arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Cyflenwi Hawliau Tramwy (ROWIP) taw'r brif broblem yr oedd defnyddwyr llwybrau troed a llwybrau ceffylau'n dod ar eu traws oedd diffyg arwyddion a chyfeirbwyntiau. Ni nodwyd unrhyw broblem yn amlach; fe'i codwyd gan 75% o'r ymatebwyr i'r arolwg. Ategir hyn gan nifer y cwynion y mae'r Cyngor yn eu derbyn ynghylch problemau gyda'r rhwydwaith hawliau tramwy.

Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i hyrwyddo iechyd a llesiant trwy ddefnyddio cefn gwlad, ac i ysgogi'r economi lleol trwy ddenu ymwelwyr i gerdded a beicio ym Mhowys. Mae'r diffyg amlwg o arwyddion a chyfeirbwyntiau'n rhwystr mawr i drigolion ac ymwelwyr sy'n dymuno dilyn y gweithgareddau hyn.

A wnaiff Aelod y Cabinet sicrhau fod y ROWIP newydd, sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd, yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf bosib i raglen waith gyda'r nod o ymateb i'r broblem fawr hon a godwyd gan drigolion, os gwelwch yn dda?

Ymateb

Diolch am eich cwestiwn Mr Taylor ac ymddiheuraf nad wyf yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod llawn y Cyngor.

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, er ei bod yn ddogfen statudol, hefyd yn ategu nodau strategaethau cenedlaethol a lleol allweddol, yn benodol y sawl sy'n ymwneud â:

- Chefnogi'r economi lleol
- Gwella iechyd a llesiant y genedl a thrigolion, a
- Chreu amgylchedd mwy cynaliadwy

Mae'r Cynllun hefyd yn olrhain sut y bydd yn cyfrannu at amcanion allweddol eraill Gweledigaeth 2025 Cabinet y Cyngor Sir a Gweledigaeth 2040 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol yn hanfodol er mwyn gwireddu'r nodau hyn.

Fel rhan o'r broses o adolygu ROWIP, cynhaliwyd nifer o arolygon ac ymgynghoriadau. Dangosodd ganlyniadau Cwestiwn 8 arolwg cyffredinol y cyhoedd, fod 75% o ymatebwyr wedi dod ar draws problemau gydag *arwyddion* a *chyfeirbwyntiau*. Dilynwyd hyn yn agos iawn gan *broblemau wyneb sef* 70%, *camfeydd/gatiau* ar 68% a *rhwystrau* ar 56%. Gofynnodd cwestiwn 12 beth oedd yn perswadio'r cyhoedd i beidio defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy. Yr ateb uchaf oedd *rhwystrau* (23%), ac wedyn yr *wyneb* (18%), ac wedi hynny *croesi tir preifat* (13%). Dengys y canlyniadau, er bod *arwyddion* a *chyfeirbwyntiau* yn broblem gyffredin, mae materion eraill yn bwysicach o ran perswadio pobl i beidio defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy.

Mae'r Cyngor o'r farn, gan fod rhwystrau'n perswadio pobl i beidio defnyddio hawliau tramwy, ni fyddai o gymorth nac yn ddoeth i osod arwyddion a

chyfeirbwyntiau ar lwybr sydd â rhwystr(au) arno. Unwaith y caiff llwybr tramwy ei glirio o rwystrau, wedyn caiff chyfeirbwyntiau eu gosod, sy'n rhoi hyder i'r cyhoedd fod y llwybr ar agor ac yn hygyrch.

Mae'r ROWIP drafft, fydd yn destun ymgynghori, yn amlinellu bwriad i flaenoriaethu gweithio gyda Chymunedau sy'n dangos diddordeb mewn gweithio ar eu rhwydwaith llwybrau tramwy cyhoeddus lleol. Byddai'r Cyngor yn cynorthwyo ac yn hwyluso'r Cymunedau i gyflawni gwaith yn eu hardaloedd lleol.

Ar hyn o bryd mae APCBB yn llunio ROWIP drafft, wedi cwblhau'r cam asesu. Roedd problemau gydag arwyddion hefyd yn amlwg iawn yn eu holiadur nhw. Ar y cyd â llystyfiant, hon oedd y broblem amlycaf. Er nad ydynt eto wedi cyrraedd y cam o lunio camau gweithredu drafft, maent wedi awgrymu'r bwriad i gynnwys camau gweithredu i ddelio gydag arwyddion.

Cwestiwn atodol Mr Taylor oedd gofyn i'r Deiliad Portffolio sicrhau fod y ROWIP newydd yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf bosib i raglen waith gyda'r nod o sicrhau fod llwybrau agored yn dangos arwyddion a chyfeirbwyntiau priodol. Roedd y Deiliad Portffolio'n absennol, a byddai ateb yn cael ei anfon at Mr Taylor, ynghyd â chopi at holl aelodau'r Cyngor.

Ymateb i'r Cwestiwn Atodol

Diolch am y cwestiwn atodol.

Cymeradwywyd y ROWIP drafft gan y Cabinet ar ddydd Mawrth 10fed Gorffennaf 2018, a bydd ar gael cyn bo hir ar gyfer ymgynghoriad fydd yn parhau am 3 mis. Caiff eich sylwadau a'ch cais eu dadansoddi a'u hasesu fel rhan o'r broses adolygu yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwnnw.

Dengys canlyniadau Cwestiwn 8 arolwg cyffredinol y cyhoedd, fel y nodwyd gennych, fod 75% o ymatebwyr wedi dod ar draws problemau gydag arwyddion a chyfeirbwyntiau. Dilynwyd hyn yn agos gan broblemau gyda'r wyneb (70%), camfeydd/gatiau (68%) a rhwystrau (56%). Gofynnodd cwestiwn 12 beth oedd yn perswadio pobl i beidio defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy. Yr ateb uchaf oedd rhwystrau (23.1%), ac wedyn yr wyneb (18.5%), ac wedi hynny croesi tir preifat (13.3%). Opsiwn arall dan gwestiwn 12 ar yr hyn sy'n perswadio defnyddio i beidio defnyddio'r rhwydwaith, oedd "ddim yn gyfarwydd gyda'r llwybr" oedd yn y 4ydd safle gydag 8% o'r ymatebion a "cholli ffordd" fel opsiwn arall gyda 3.6%. Dengys y canlyniadau, er bod rhai arwyddion a chyfeirbwyntiau'n broblem gyffredin, mae problemau eraill a all fod yn bwysicach o ran perswadio'r cyhoedd i beidio defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o fuddion economaidd-gymdeithasol y darperir gan hawliau tramwy cyhoeddus, a mater yw o sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus gyda'r adnoddau sydd ar gael.

4.2. Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan Peter Newman

Ym 1968, cyhoeddwyd a gweithredwyd Deddf Cefn Gwlad, oedd yn golygu dyletswydd ar Awdurdodau Priffyrdd i osod arwyddbyst at lwybrau cyhoeddus lle maent yn gadael ffordd fetlin.

Deallaf taw dim ond 69 arwyddbyst a godwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, sef 23 yr un ar gyfer hen siroedd Brycheiniog, Maesyfed a Maldwyn.

A fyddai'n bosib rhoi amcangyfrif i'r cyhoedd sy'n cerdded, fy sefydliad i ac eraill sydd â diddordeb o ran faint o arwyddbyst sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf, a'r amserlen, os gwelwch yn dda?

Ymateb

Diolch am eich cwestiwn Mr Newman ac ymddiheuraf nad wyf yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod llawn y Cyngor.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, gosodwyd 325 mynegbost ar draws Powys tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Adran Gwasanaethau Cefn Gwlad unrhyw ddata sy'n nodi faint o fynegbyst sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Ar hyn o bryd nid yw'r Gwasanaeth yn gallu cynhyrchu ystadegau dibynadwy ynglŷn â faint o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n bodoli, neu'r nifer sydd heb arwyddbyst ar ochr y ffordd. Felly nid yw'n bosib rhoi amcangyfrif o ran amserlen a'r adnoddau sydd eu hangen.

Mae APCBB wedi gosod mwy na 320 o fynegbyst, rhai'n newydd yn y Parc ers canol 2013. Yn ôl arolwg APCBB 5% 2016/17, amcangyfrifir fod 70% o fynegbyst yn eu lle trwy gydol y Parc. Mae'r data yma ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan, fodd bynnag, mae swyddogion wedi nodi eu bod o'r farn fod hyn yn adlewyrchiad cywir o hawliau tramwy cyhoeddus Powys o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

Nid oes gan APCBB amcangyfrif o ran yr amserlen sydd ei angen i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ac maent wedi nodi fod bodolaeth arwyddbyst ar ochr y ffordd yn ddeinamig ac yn hyblyg. Mae mynegbyst yn dueddol o fod yn destun niwed neu o gael eu dwyn.

Roedd cwestiwn atodol Mr Newman yn gofyn i'r Deiliad Portffolio ystyried hyn eto yng ngolau'r wybodaeth sydd ar gael. Roedd y Deiliad Portffolio'n absennol, ac felly byddai ateb yn cael ei anfon at Mr Newman, ynghyd â chopi at holl aelodau'r Cyngor.

Ymateb i'r Cwestiwn atodol

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd digon o fanylder yn f'ateb i'ch cwestiwn.

Mae'r Gwasanaethau Cefn Gwlad yn bwriadu holi arolwg cyflwr 5% y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn pennu a fyddai'n bosib allosod mwy o wybodaeth. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn bosib cyflawni'r gwaith yma erbyn cyfarfod heddiw.

Os bydd data ychwanegol ar gael o'r arolwg, bydd swyddogion yn gweithio ar lunio amcangyfrif ar gyfer rhwydwaith cyfan hawliau tramwy cyhoeddus (ar wahân i'r Parc Cenedlaethol). Ar ôl cwblhau hyn, rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaethau Cefn Gwlad anfon y ffigurau hyn atoch yn unol â'ch cais.

Ymddiheuraf nad wyf yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod llawn y Cyngor heddiw, oherwydd roedd yn rhaid imi fynychu cyfarfod arall i drafod cyllid y Cyngor, felly ymddiheuriadau nad wyf yn gallu rhoi ateb personol ichi.

5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Estynnwyd croeso i nifer o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Crughywel gan y Cadeirydd, oedd yn arsylwi ar y cyfarfod. Estynnwyd llongyfarchiadau i Nigel Brinn yn dilyn ei benodiad fel Cyfarwyddwr yr Amgylchedd.

Dosbarthwyd manylion cyfarfodydd a digwyddiadau'r Cadeirydd i'r holl aelodau.

Estynnwyd llongyfarchiadau gan Gynghorwyr i aelodau Tîm Twyll Defnyddwyr Safonau Masnach, dan arweiniad Nikki Davies Wheeler, oedd wedi derbyn cymeradwyaeth fawr gan y Grŵp Gwrth-drwgfathu am ei waith mewn perthynas â diogelu defnyddwyr Powys rhag nwyddau ffug.

6. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynnig i ddatblygu rheilffordd profi trenau ar safle hen lofa glo brig Nant Helen fyddai'n golygu buddsoddiad mawr i'r ardal. Cyfeiriodd hefyd at dderbyniad a gynhaliwyd yn ystod yr Ŵyl Wanwyn ac Eisteddfod yr Urdd a nododd iddi gynnal trafodaethau gyda'r Urdd ynghylch yr Eisteddfod yn dychwelyd yn y dyfodol agos. Roedd hefyd wedi cymryd rhan yn y digwyddiadydd lansio Her Beicio Mynydd Cymru 360, fyddai'n stopio 2 waith ym Mhowys. Roedd wedi cadeirio dadl yng nghynhadledd CLILC ar faterion gwledig, ac bu'n siaradwr gwadd gyda'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ar destun datblygiad gwledig.

7. DIWEDDARIAD Y PRIF WEITHREDWR

Rhodddwyd diweddariad gan y Dirprwy Prif Weithredwr ar y Bwrdd Gwella a Sicrwydd; ehangwyd ei gyfrifoldebau i gynnwys Gwasanaethau Oedolion a materion corfforaethol.

Nododd y cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer swydd Pennaeth Gwasanaethau Plant, y diwrnod cynt, a llwyddwyd i benodi. Nododd hefyd taw Adrian Jervis yw Pennaeth Prifffyrdd Dros Dro. Ac yn olaf, nododd fod enwebiadau ar gyfer gwobrwyon staff wedi agor, ac atgoffodd aelodau eu bod yn gallu enwebu staff.

8. TROSGLWYDDIADAU I DREIGLO YMLAEN CYLLIDEBAU HEB EU DYRANNU O 2017/18 I FLWYDDYN ARIANNOL 2018/19

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo treiglo ymlaen trosglwyddiadau o 2017/18 i'r flwyddyn 2018/19 ar gyfer cynlluniau cyfalaf parhaus, oedd heb eu cwblhau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2017/18.

Roedd un o'r trosglwyddiadau ar gyfer prosiectau tai'r Cyfrif Refeniw Tai oherwydd oedi o ran anfonebu gan HOWPS ac roedd aelodau am gael cadarnhad fod HOWPS yn destun craffu, a bod eu prosesau wedi gwella. Nododd y Dirprwy Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda HOWPS oedd wedi pennu adnoddau sylweddol er mwyn gwella eu prosesau, ac roedd arwyddion fod perfformiad yn gwella. Nododd hefyd nad oedd unrhyw broblemau o ran diffyg cyllid o ganlyniad i dreiglo cyllidebau ymlaen.

Gyda 50 pleidlais o blaid, 1 yn erbyn ac 1 atal pleidlais,

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Cymeradwyo'r trosglwyddiadau fel yr amlinellir yn yr adroddiad a ffeiliwyd gyda'r cofnodion wedi'u llofnodi.	Sicrhau y caiff trosglwyddiadau priodol eu prosesu sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf a ragwelwyd.

9.	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
-----------	--

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yr adroddiad ar gyfer 2017/18 gan nodi nad hi oedd y Cyfarwyddwr yn ystod y cyfnod hwn, ac yn cydnabod cyfraniadau ei rhagflaenwyr. Roedd yr adroddiad yn cydnabod y bu'n flwyddyn heriol iawn i'r gwasanaethau cymdeithasol, ond nododd hefyd, diolch i waith caled staff, cydweithwyr corfforaethol, sefydliadau partner a chefnogaeth wleidyddol, fod rhai gwelliannau sylweddol yn dechrau cael eu cyflawni. Roedd yr adroddiad hefyd yn olrhain y blaenoriaethau ar gyfer 2018/19. Nododd y Cyfarwyddwr y byddai ei hadroddiad nesaf yn cael ei llunio ar y cyd â defnyddwyr y gwasanaethau a sefydliadau partner.

Atebodd y Cyfarwyddwr cwestiynau gan Aelodau. Cytunodd bod angen gwneud mwy i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, a bod recriwtio a chadw staff yn her fawr, fel y nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio weithio gyda'r Cyfarwyddwr i fynd i'r afael â hyn. Nododd ei bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda staff rheng flaen ac yn derbyn adborth defnyddiol ganddynt. Nododd hefyd fod y gwasanaeth yn datblygu arwyddion o fodel diogelwch gyda'r nod o osgoi sefyllfa lle mae plant yn gorfod derbyn gofal. Hysbyswyd Aelodau hefyd y byddai papur yn dod gerbron y Cabinet ar destun rhyddhad rhag Treth Gyngor ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y penderfyniad
Derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Gofyniad statudol.

10. ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**10.1 Adolygu rôl Cadeirydd y Cyngor ac adolygu Rolau Dinesig**

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Cynigiwyd gwelliannau gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies, y "dylai fod gan y Cyngor Gadeirydd ac Is-gadeirydd, i'w hethol yn flynyddol yng nghyfarfod llawn y Cyngor yn y CCB.

Dylai car y Cadeirydd, fel y nodir yn yr adroddiad, ddod o'r gronfa geir er budd ehangach yr awdurdod."

Collwyd y gwelliant cyntaf; roedd 3 pleidlais o blaid, 44 yn erbyn, a 3 yn atal pleidlais. Enillwyd yr ail welliant gyda 17 o blaid, 2 yn erbyn, a 5 yn atal pleidlais.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Y dylai car y Cadeirydd, fel y nodir yn yr adroddiad, ddod o'r gronfa geir er budd ehangach yr awdurdod.	Er budd ehangach yr awdurdod.

Cynigiwyd argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance a'u heilio gan y Cynghorydd Sir Linda Corfield.

Argymhelliad 1: 31 o blaid, 9 yn erbyn, ac 1 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Fod y rolau dinesig yn werthfawr, ac y dylid eu cadw.	Ymateb i'r penderfyniad a gytunwyd yn y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2017.

Argymhelliad 2: 37 o blaid, 8 yn erbyn gyda 2 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Fod rolau'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Is-gadeirydd Cynorthwyol yn fwy pwysig bellach gan eu bod yn cynnwys rolau'r Cadeiryddion Sirol o fis Mai ymlaen.	Ymateb i'r penderfyniad a gytunwyd yn y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2017.

Argymhelliad 3: 37 o blaid, 5 yn erbyn, a 2 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Y dylid cadw'r drefn ddilyniant cyfredol o ran ethol Cadeirydd y Cyngor rhwng yr ardaloedd.	Ymateb i'r penderfyniad a gytunwyd yn y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2017.

Argymhelliad 4: 37 o blaid, 8 yn erbyn, ac 1 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Does dim budd o symud i gael Aelod Llywyddu yn lle Cadeirydd y Cyngor.	Ymateb i'r penderfyniad a gytunwyd yn y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2017.

Argymhelliad 5: 39 o blaid, 5 yn erbyn, a 4 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Taw cyfyngedig yw'r potensial i leihau lefel y cyflog dinesig a delir, oherwydd nid yw'n golygu arbedion sylweddol.	Ymateb i'r penderfyniad a gytunwyd yn y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2017..

Argymhelliad 6: 36 o blaid, 7 yn erbyn, a 2 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Y dylid cadw'r dyraniad cyfredol yn y gyllideb at ddefnydd y Cadeirydd.	Ymateb i'r penderfyniad a gytunwyd yn y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2017.

Argymhelliad 7: 44 o blaid, 6 yn erbyn

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Bod angen cefnogi rôl y Cadeirydd mewn ffordd briodol, gydag adnoddau priodol yn amodol ar gymeradwyo achos busnes cadarn gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o ran gwariant tu allan i lwfans y Cadeirydd.	Ymateb i'r penderfyniad a gytunwyd yn y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2017.

10.2. Canlyniadau'r Arolwg ar Amser Cyfarfodydd

Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance, yr argymhelliad, gan nodi'r materion a nodwyd gan aelodau yn yr arolwg ynghylch amseroedd teithio a chyfrifoldebau gofal. Fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton. Gyda 50 o blaid, a 0 yn erbyn

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Na fyddai amseroedd cyffredinol cyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a Phwyllgorau'n newid am dymor cyfredol y Cyngor, gyda'r ddarpariaeth y gall Cadeiryddion Pwyllgor amrywio amseroedd cyfarfodydd yn ddibynnol ar angen.	Cwblhau Arolwg Aelodau yn unol ag Adran 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

10.3. Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Cynghorwyr

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance yr agymhelliad a diolchodd i aelodau'r gweithgor fu'n gyfrifol am lunio'r canllawiau ar gyfryngau cymdeithasol ar gyfer Cynghorwyr. Fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas. Gyda 52 o blaid, 0 yn erbyn, a 3 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Aelodau.	Cymeradwyo'r Canllawiau diwygiedig.

10.4 Diwygio Adran 13 y Cyfansoddiad – Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance yr argymhelliad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Emyr Jones. Gyda 52 o blaid, a 0 yn erbyn

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i newid manylion cyfrifoldebau'r Deiliad Portffolio, sy'n rhan o'r Cyfansoddiad, lle gwneir diwygiadau gan yr Arweinydd.	Sicrhau fod y Cyfansoddiad yn gyfredol.

10.5. Strategaeth Datblygu Aelodau

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance yr argymhelliad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Linda Corfield. Gyda 51 o blaid, a 0 yn erbyn

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Datblygu Aelodau 2018-22, fel y nodir yn Atodiad yr adroddiad.	Diweddarau Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor am y cyfnod 2018 - 2022.

10.6. Gwelliannau i'r Cyfansoddiad

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance yr argymhelliad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Roger Williams. Gyda 52 o blaid, a 0 yn erbyn

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad
Cymeradwyo Adrannau 4 a 7 y Cyfansoddiad, fel y nodir yn Atodiad yr adroddiad.	Diweddarau Adrannau'r Cyfansoddiad yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Mai 2018.

11.	PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU, SGILIAU A'R ECONOMI
------------	--

Cynigiodd Y Cynghorydd Sir Roger Williams a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams a

PHENDERFYNWYD nodi penodiad gan y Democratiaid Rhyddfrydol Y Cynghorydd Sir Pete Roberts fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu, Sgiliau a'r Economi.

12.	LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2017-18
------------	---

Roedd pob Aelod oedd yn bresennol wedi datgan buddiannau personol yn yr eitem hon. Nododd Cyfreithiwr y Cyngor nad oedd gan Aelodau fuddiannau sy'n rhagfarnu oherwydd roedd y busnes dan sylw'n ymwneud â swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Lwfansau Aelodau'n unol â pharagraff 12(2)(b)(iv) y Cod Ymddygiad.

Roedd y Cyngor wedi derbyn manylion y symiau i'w talu i aelodau mewn cyflogau a lwfansau yn 2017/18. Roedd gofyn i'r Cyngor gyhoeddi'r wybodaeth erbyn 30^{ain} Medi 2018.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad:
Nodwyd yr adroddiad.	Sicrhau fod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd o fewn yr amserlen a bennwyd.

13.	PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL
------------	---

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol i Bwyllgorau gan grwpiau gwleidyddol, ac a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro dan y pwerau dirprwyo cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor ar 16^{eg} Mai 2013:

Penodwyd Y Cynghorydd Sir Graham Breeze i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn lle'r Cynghorydd Sir Karen Laurie-Parry.

Penodwyd Y Cynghorydd Sir Jon Williams i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal a Thai yn lle'r Cynghorydd Sir Joy Jones.

Penodwyd Y Cynghorydd Sir Linda Corfield i'r Pwyllgor Archwilio yn lle'r Cynghorydd Sir Liam Fitzpatrick.

14.	RHYBUDD O GYNNIG
------------	-------------------------

14.1 Cynllunio leithyddol ar gyfer Powys

Bu'r Cyngor yn trafod y rhybudd o gynnig canlynol a gynigiwyd gan Y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

Wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gyda'r polisi yn derbyn cefnogaeth y gwrthbleidiau ym Mae Caerdydd, mae angen inni ym Mhowys ystyried sut y gallwn gyfrannu at wireddu hyn. Bydd angen i Bowys anelu at gynyddu canran siaradwyr Cymraeg y sir o 19% yng Nghyfrifiad 2011 i 33% - sydd yn her.

Mae'n golygu bod angen inni ystyried y sefyllfa yn ei gyfanrwydd er mwyn deall yr heriau, i fod yn flaengar, a gweithredu ar lefelau amrywiol, a bod yn uchelgeisiol o ran ein gweledigaeth ni.

Mae yma gyfle i Bowys arwain y ffordd a bod y flaengar, trwy ystyried y Gymraeg yn rhan allweddol o dreftadaeth y Sir hynafol hon, ond hefyd fel adnodd cymdeithasol ac economaidd at y dyfodol. Os gallwn harneisio a gweithredu'r pecyn cymorth hwn, credwn y byddai Powys yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynaliadwyedd y Gymraeg, a thuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru.

Felly mae'r Cyngor yn:

1. Cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan annatod o dreftadaeth hanesyddol Powys
2. Cadarnhau fod yr iaith yn eiddo i bob rhan o'r Sir
3. Credu fod yr iaith yn bwysig o safbwynt cynaliadwyedd sy'n gweu i egwyddorion cymunedol, economaidd a chynaliadwyedd
4. Credu taw sgil yw'r iaith, ac yn adnodd allweddol ar gyfer dinasyddion y dyfodol
5. Bryderus ynghylch y lleihad yn nifer Siaradwyr Cymraeg yn sgil Cyfrifiad 2011 ac yn derbyn yr angen ar gyfer gweithredu cynhwysfawr i atal y duedd hon
6. Trwy hyn yn galw ar y Cyngor i lunio cynllun strategol sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hyn, ac sy'n gyson â Deddf yr Iaith Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg, fydd yn olrhain pwyntiau gweithredu clir er mwyn i Bowys allu cyfrannu at y nod o wireddu miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Dadl y cynigydd a'r eilydd oedd bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu er mwyn atal dirywiad y Gymraeg yn y cadarnleoedd ac ymestyn defnydd o'r iaith ar hyd a lled y sir. Roedd Deiliad Portffolio Addysg a'r Gymraeg yn croesawu'r cynnig a nododd bod llawer o waith eisoes yn digwydd trwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Gyda 51 o blaid ac 1 yn erbyn

PENDERFYNWYD

1. **Cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan annatod o dreftadaeth hanesyddol Powys**
2. **Cadarnhau fod yr iaith yn eiddo i bob rhan o'r Sir**
3. **Credu fod yr iaith yn bwysig o safbwynt cynaliadwyedd sy'n gweu i egwyddorion cymunedol, economaidd a chynaliadwyedd**
4. **Credu taw sgil yw'r iaith, ac yn adnodd allweddol ar gyfer dinasyddion y dyfodol**
5. **Bryderus ynghylch y lleihad yn nifer Siaradwyr Cymraeg yn sgil Cyfrifiad 2011 ac yn derbyn yr angen ar gyfer gweithredu cynhwysfawr i atal y duedd hon**

6. **Trwy hyn yn galw ar y Cyngor i lunio cynllun strategol sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hyn, ac sy'n gyson â Deddf yr Iaith Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg, fydd yn olrhain pwyntiau gweithredu clir er mwyn i Bowys allu cyfrannu at y nod o wireddu miliwn o siaradwyr Cymraeg.**

14.2. **Hawliau Deiliaid Bathodynau Glas ym Meysydd Parcio sy'n eiddo i'r Cyngor**

Gadawodd y Cynghorwyr Sir B Baynham, L Corfield, B Davies, D Davies, D Evans, J Evans, A Jones, K Laurie-Parry, H Lewis, S McNicholas, C Mills, D Price, G Pugh, K Roberts-Jones, R Powell, G Ratcliffe, E Roderick, D Rowlands, T Van-Rees, E Vaughan a G Williams y cyfarfod tra bo'r eitem hon yn cael ei hystyried, wedi datgan buddiannau personol ac sy'n rhagfarnu.

Cadarnhaodd Cyfreithiwr y Cyngor y byddai'r Cabinet, fel y corff sy'n gwneud penderfyniadau, yn gwrando ar y ddadl, ond ni fyddai'r aelodau'n bwrw pleidlais.

Ystyriwyd y cynnig canlynol gan y Cyngor; fe'i gynigiwyd gan Y Cynghorydd Sir Pete Roberts ac fe'i eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt:

Mae'r Cyngor yn nodi'r ymgynghoriad a lansiwyd ddiwedd mis Mai mewn perthynas â newidiadau posib ar gyfer deiliaid Bathodynau Glas mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi taw dewis opsiwn y grwpiau gweithredol yw cyflwyno ffioedd i ddefnyddio meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn credu, fod y sawl sydd â hawl i Fathodynau Glas, gan gynnwys y dall, cyn-filwyr lluoedd arfog sydd ag anabledd, a dinasyddion sy'n derbyn y lefelau budd-dal anabledd uchaf, yn wynebu lefelau caledi eithafol, ac ni ddylid eu hamddifadu ymhellach.

Felly mae'r Cyngor yn annog y Deiliad Portffolio Priffyrdd i ddiystyru unrhyw opsiwn sy'n golygu y bydd gofyn i ddeiliaid Bathodynau Glas dalu wrth ddefnyddio un o feysydd parcio'r Cyngor.

Roedd nifer o aelodau'n beirniadu'r ymgynghoriad, gan ddweud nad oedd ar gael ar fformatau clywedol, mewn print bras neu braille ac ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith o gwbl. Roedd eraill yn cwestiynu faint o refeniw fyddai'n deillio o godi ffioedd ar ddeiliaid Bathodynau Glas, gan ddweud y byddai camau gweithredu yn erbyn y sawl sy'n cam-ddefnyddio'r system yn codi mwy o arian. Roedd aelodau eraill yn beirniadu'r ffaith fod y cynnig wedi dod gerbron y cyfarfod, gyda'r ymgynghoriad yn parhau.

Gyda 20 o blaid, 7 yn erbyn, a 6 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD annog y Deiliad Portffolio Priffyrdd i ddiystyru unrhyw opsiwn sy'n golygu y bydd gofyn i ddeiliaid Bathodynau Glas dalu wrth ddefnyddio un o feysydd parcio'r Cyngor.

Torrodd y Cyngor am ginio am 13.38 ac ailymgynnull am 14.05.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Sir DW Meredith (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, B Baynham, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, S Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J M Williams ac R Williams

15. EITEMAU EITHRIEDIG

PENDERFYNWYD peidio caniatáu mynediad i'r cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes nesaf ar y sail y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig iddynt dan gategori 1 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiaeth) (Cymru) 2007).

16. ADRODDIAD CYFRINACHOL - MATER PERSONÉL PREIFAT

Derbyniwyd eglurhad gan Steve Thomas, Prif Weithredwr CLILC, a dosbarthwyd adroddiad gan yr Arweinydd.

Gohiriwyd y cyfarfod er mwyn i aelodau ystyried yr adroddiad mewn grwpiau gwleidyddol, gan ailymgynnull am 14.45.

Gadawodd Y Cyngorydd Sir Baynham y cyfarfod am 15.36.

Cynigiwyd argymhellion yr adroddiad gan yr Arweinydd, ac fe'u heiliwyd gan Y Cyngorydd Sir DR Jones a gyda 43 o blaid, 3 yn erbyn a 4 yn atal pleidlais

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad:
<p>1. Cymeradwyo telerau'r setliad a amlinellwyd yn adran 3 yr achos busnes atodedig, sef Atodiad A yr adroddiad hwn.</p>	<p>Caniatáu i'r Cyngor symud ymlaen er budd effeithlonrwydd y Cyngor.</p>
<p>2. Awdurdodir Cyfreithiwr y Cyngor i lunio Cytundeb Setliad ffurfiol er mwyn gweithredu'r telerau setliad a gytunwyd ar y cyfle cyntaf posib.</p>	
<p>3. Fod yr adroddiad, yr achos busnes, a'r canlyniad yn aros yn gyfrinachol.</p>	

Agorwyd cyfarfod y Cyngor i'r cyhoedd unwaith eto. Gadawodd y Cynghorwyr Sir E Durrant a J Pugh y cyfarfod am 16.00.

17. RHYBUDD O GYNNIG – Ffordd Osgoi'r Drenewydd

Aeth y Cyngor ati i ystyried y cynnig canlynol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir David Selby, ac a eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir Karl Lewis:

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod fod adeiladu ffordd osgoi'r Drenewydd yn creu cyswllt trafndiaeth pwysig, sy'n gymharol o ran pwysigrwydd i'r cyswllt rhwng y dref a'r gamlas a rheilffyrdd y 19^{eg} ganrif. Mae'r ffordd osgoi o bwysigrwydd cenedlaethol a lleol mawr.

Felly mae'r Cyngor yn annog Llywodraeth Cymru i enwi'r Ffordd Osgoi yn 'Ffordd Robert Owen Way' er mwyn cydnabod arwyddocâd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol Robert Owen, ym maes diwygiad cymdeithasol, a'r unigolyn oedd yn enwog fel sylfaenydd y mudiad cydweithredol.

Gyda 33 o blaid ac 1 yn erbyn

PENDERFYNWYD annog Llywodraeth Cymru i alw'r Ffordd Osgoi yn 'Ffordd Robert Owen Way' er mwyn cydnabod arwyddocâd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol Robert Owen ym maes diwygiad cymdeithasol a'r unigolyn oedd yn enwog fel sylfaenydd y mudiad cydweithredol.

17.1 Rhybudd o Gynnig – Polisi Trafnidiaeth Ysgol

Tynnwyd y rhybudd o gynnig yma'n ôl gan y cynigydd a'r eilydd.

18. CWESTIYNAU'N UNOL A'R CYFANSODDIAD

18.1 Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan Y Cynghorydd Sir Gwilym Williams

A wnaiff y deiliad portffolio fy hysbysu ac Aelodau am gyfanswm y taliadau honoraria a dalwyd gan Gyngor Sir Powys i weithwyr yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf; gan nodi cyfanswm ar gyfer bob blwyddyn?

Ymateb

Mae cyfanswm y taliadau honoraria ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol fel a ganlyn:

	Nifer y gweithwyr	Cyfanswm Gwerth
2016/17	8	£6,687.00
2017/18	2	£4,174.00

Roedd cyfanswm y taliadau camu fyny yn ystod bob un o'r blynyddoedd ariannol canlynol fel a ganlyn:

	Nifer y gweithwyr	Cyfanswm Gwerth
2016/17	33	£79,619.40
2017/18	84	£184,054.75

Yn Nhelerau ac Amodau Gwasanaeth y Cyngor, diffinnir honoraria fel taliad dewisol a ddyfernir gan Bennaeth y Gwasanaeth pan fydd gweithwyr yn ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol am gyfnod penodol.

Doedd dim cwestiwn atodol.

18.2 Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan Y Cyngorydd Sir Gwilym Williams

A wnaiff y deiliad portffolio fy hysbysu faint o aelodau staff dro a gyflogir gan Gyngor Sir Powys ar hyn o bryd, a faint o aelodau staff dros dro a gyflogwyd gan Gyngor Sir Powys 12 mis yn gynharach?

Ymateb

Contractwyr yw'r gweithwyr dros dro sy'n cyflenwi darpariaeth dros dro o ran adnoddau a sgiliau rheolaeth. Mae'r trefniadau rheolaeth dros dro yn golygu pennu arweinydd gweithredol / rheolwr dros dro profedig am dymor byr i arwain / rheoli cyfnod o newid, argyfwng neu newid o fewn sefydliad. Yn y sefyllfa hon, hwyrach nad oes angen rôl barhaol neu'n mae'n amhosib ei lenwi ar fyr rybudd. Yn ogystal, hwyrach nad oes unrhyw ymgeisydd mewnol sydd yn addas neu sydd ar gael i gyflawni'r swydd dan sylw.

Dyddiad	Nifer y gweithwyr dros dro ar contract
28/06/2018	27
28/06/2017	18

Byddai cwestiwn atodol y Cyngorydd Williams yn golygu datgelu gwybodaeth gyfrinachol, ac felly byddai angen delio gyda hwn tu allan i'r cyfarfod.

18.3 Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Addysg a'r Gymraeg gan Y Cyngorydd Sir Edwin Roderick

Datganodd Y Cyngorydd Sir R Harris fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod tra trafodwyd y mater.

Gan ystyried yr adeiladwyd pum ysgol gynradd newydd ym Mhowys, pryd fyddai'n ymarferol meddwl y gellir adeiladu ysgol newydd ym Mhontsenni, gan ystyried taw hon yw un o ysgolion hynaf y Sir, hyd y gwn i, a ddyluniwyd yn wreiddiol fel ysgol uwchradd a adeiladwyd ym 1939 a lle mae angen atgyweiriadau'n gyson erbyn hyn ac ati. Mae problem ddifrifol gyda charthffosiaeth a phroblemau mawr eraill, gyda theiliau llawr yn codi trwy'r ysgol. Hefyd, mae'n rhaid i ddisgyblion groesi iard yr ysgol i gyrraedd y ffreutur, a does dim cyfleusterau toiledau yn yr adeilad hwnnw.

Ar hyn o bryd mae 130 ar y gofrestr, gan gynnwys ffrwd Gymraeg llwyddiannus gyda 44 o blant. Mae'r ysgol yn gorfod ymdopi gyda chyfleusterau isel iawn eu safon, er hynny, yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar yn Aberhonddu, credaf taw Ysgol Pontsenni oedd â'r nifer uchaf o blant yn cymryd rhan, ac aeth llawer ohonynt ymlaen i gynrychioli Sir Frycheiniog yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ar un adeg, roedd pwll nofio poblogaidd a phrysur iawn ym Mhontsenni; ond yn anffodus, bu'n rhaid ei gau oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw. Dengys amcanestyniadau y disgwylir i niferoedd disgyblion godi eto, a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 50 o gartrefi newydd, felly mae'n flaenoriaeth i Bontsenni gael ysgol fwy, gyda chyfleusterau gwell a mwy cyfoes a chyfredol.

A wnaiff y Deiliad Portffolio ymrwmo i ddarparu ysgol gynradd newydd ym Mhontsenni?

Ymateb:

Un o brif flaenoriaethau Polisi Trefniadaeth ysgolion newydd y Cyngor yw gwella cyflwr ystâd ysgolion Powys, ac mae'r awdurdod yn cyflawni hyn drwy Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r Rhaglen Gwelliannau Mawr. Mae'r awdurdod, ar y cyd â Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £80m i wella seilwaith ysgolion Powys, fel rhan o Haen A Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif, sy'n rhedeg rhwng 2014 - 2019. Rydym hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol Haen B ar gyfer buddsoddiad cyfalaf rhwng 2019 - 2024/5, a seilir ar flaenoriaethau canlynol LIC ar gyfer Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif, Haen B:

1. Darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol fydd yn diwallu'r galw cyfredol a galw'r dyfodol ar gyfer lleoedd erbyn 2024.
 - Caiff costau cynnal a chadw wrth gefn ysgolion a cholegau a ddewiswyd ar gyfer Haen B eu haneru o leiaf (yn seiliedig ar dybiaeth y bydd tua 50% o brosiectau'r Rhaglen yn golygu ysgolion newydd yn lle asedau presennol).
 - Does dim adeiladau Categori CH yn yr ystâd.
 - Caiff tua 25% o adeiladau cyflwr Categori C eu gwella i Gategori A neu B.
2. Defnyddio i'r eithaf y seilwaith ac adnoddau, er mwyn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus i'n cymunedau erbyn 2024. Bydd hyn yn cynnwys hyblygrwydd o ran asedau er mwyn sicrhau y defnyddir y gofod a chyfleusterau sydd ar gael i randdeiliaid, i'r eithaf.
 - Rydym yn dymuno i'r holl gyfleusterau sy'n derbyn buddsoddiad ymrwmo i wneud asedau ar gael i'w defnyddio gan y gymuned, os bydd galw am hynny'n lleol.
 - Bydd 10% o ysgolion /colegau sy'n derbyn cyllid trwy'r Rhaglen yn cyd-leoli gwasanaethau cyhoeddus ar y safle, os bydd galw am hynny'n lleol.

Ar hyn o bryd rydym yn cadarnhau'r blaenoriaethau cyllido fel rhan o Haen B, yn ystyried cyflwr, addasrwydd a chynaliadwyedd holl ysgolion yr ystâd, a chaiff y rhain eu cadarnhau unwaith y cytunir ar hyn.

I ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Roderick, o ran pryd fyddai'r holl waith atgyweirio sydd ei angen ar yr ysgol yn digwydd, nododd y Deiliad Portffolio

Addysg a'r Gymraeg ei bod yn disgwyl i'r gwasanaeth ysgolion offren ei blaenoriaethau cyllido ar ôl yr haf.

Dychwelodd Y Cyngorydd Sir Rosemarie Harris i'r cyfarfod.

Gadawodd Y Cyngorydd Sir Linda Corfield y cyfarfod am 16.13.

18.4 Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Pobl Ifanc a Diwylliant gan Y Cyngorydd Sir Huw Williams

Faint o staff llawn amser, rhan amser a dros dro (bob graddfa) a gyflogir yn adran Gwasanaethau Plant yr Awdurdod, a sut mae'r ffigurau'n cymharu gyda'r nifer oedd yn gyflogedig adeg Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Gorffennaf 2017? Faint o swyddi gwag sydd yn yr adran?

Ymateb

Adran Gwasanaethau Plant

	3 ^{ydd} Gorffennaf 2017	28 ^{ain} Mai 2018
Swyddi llawn amser	142	149
Swyddi rhan amser	99	97
Gweithwyr Asiantaeth	23	30
Contractwr	10	8

*Mai 2018 – Mae nifer y gweithwyr asiantaeth yn cynnwys contractwyr (BK/CH) sy'n darparu capasiti ychwanegol ar gyfer yr Uwch Reolwr

3^{ydd} Gorffennaf 2017 roedd 86 o swyddi gwag yn y Gwasanaethau Plant (sy'n cynnwys swyddi wrth gefn a chysgodol a swyddi Gweithwyr Cymdeithasol sydd ar agor i Weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ac ati)

28^{ain} Mai 2018 roedd 72 o swyddi gwag yn y Gwasanaethau Plant (sy'n cynnwys swyddi wrth gefn a chysgodol a swyddi Gweithwyr Cymdeithasol sydd ar agor i Weithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso ac ati.)

4^{ydd} Gorffennaf 2018 roedd 65 o swyddi gwag yn y Gwasanaethau Plant (sy'n cynnwys swyddi wrth gefn a chysgodol a swyddi Gweithwyr Cymdeithasol sydd ar agor i Weithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso ac ati.)

Daw'r data yma'n uniongyrchol o'r Dangosfwrdd Bl – gellir rhoi dadansoddiad pellach os oes angen

Mewn realiti, mae rhyw 37 o swyddi gwag, os tynnir y swyddi cysgodol, swyddi sydd ar agor i Weithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso ac ati.

Ar 28/5/18, o'r 30 o weithwyr asiantaeth, roedd 8.5 yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag, ac roedd 21.5 o weithwyr asiantaeth yn fwy na'r nifer cytunedig o swyddi yn y gweithlu.

Yng Ngorffennaf 2017, ni fu unrhyw ymgyrch recriwtio fel y cyfryw, oherwydd dim ond ar wefan CSP a nifer o leoedd cyfyngedig eraill yr hysbysebwyd swyddi gwag.

Mae'r gwaith i ddelio gyda phroblemau recriwtio a chadw staff yn parhau fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Plant

- Mae Ymgyrch Recriwtio'n fyw o fewn Community Care Guardian, Indeed, Facebook, LinkedIn ac ati ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant

- Cynhaliwyd nifer o Ddigwyddiadau Recriwtio ar hyd a lled Powys yn ystod 2018.
- Cynhaliwyd Diwrnod Recriwtio Agored ar ran Gofalwyr Cymru ym mis Mawrth 2018 - mae wedi bod yn llwyddiannus oherwydd derbyniwyd nifer o geisiadau ar gyfer swyddi Gofal Cymdeithasol a Golwg y Bannau
- Mae'r fideo corfforaethol 'Gweithio, Byw a Chwarae ym Mhowys' bellach yn fyw, ac ar gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol.
- Datblygwyd fideos i recriwtio ym maes gwaith cymdeithasol yn benodol
- Mae'r trefniadau terfynol ar gyfer tudalen we Gofal Cymdeithasol wedi'u gwneud, ac fe'i lanswyd i dargedu recriwtio mewn meysydd penodol
- Mae proffiliau rôl yn cael eu llunio i ddenu pobl i swyddi penodol.
- Mae'r adran Cyfathrebu yn parhau i rannu swyddi sy'n ymwneud â recriwtio i'r Gwasanaethau Plant
- Hysbysebwyd swydd barhaol y Pennaeth Gwasanaeth, a chafwyd ymateb da
- Gwnaethpwyd trefniadau terfynol ar gyfer ymgyrch recriwtio Rheolwyr Tîm Maethu
- Wedi recriwtio pedwar gweithiwr cymdeithasol newydd eu cymhwyso o fewn y misoedd diwethaf
- Mae 6 lle hyfforddi mewn gwaith cymdeithasol mewnol ar gael eleni ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant
- Lanswyd cynllun buddion staff y mis yma
- Datblygwyd pecyn anwytho
- Cynigir cyfweliadau gadael i bawb sy'n gadael swydd
- Holiadur staff er mwyn deall yn well y problemau sy'n bwysig i staff rheng flaen.

Wrth ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Williams ynghylch a oedd problemau recriwtio a chadw staff yn cael effaith ar blant, a pha gamau mae'r gwasanaeth yn eu cymryd i ddelio gyda'r broblem, atebodd y Deiliad Portffolio fod y gwasanaeth yn gweithio ar becyn recriwtio i helpu denu a chadw staff, a dywedodd iddi dderbyn cadarnhad fod yr aelodau staff sydd mewn swyddi'n addas i ddiogelu plant.

18.5 Cwestiwn i'r Arweinydd gan Y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt

A wnaiff yr Arweinydd gadarnhau nifer yr Adolygiadau Barnwrol yr oedd Cyngor Sir Powys yn eu testun yn ystod blynyddoedd 2015/16, 2016/17 a 2017/18; faint o ddyfarniadau'r Adolygiadau Barnwrol oedd o blaid y Cyngor a faint yn ei erbyn; a beth oedd cyfanswm y gost i'r Cyngor o'r Adolygiadau Barnwrol hynny, gan gynnwys y rhai y dewisodd y Cyngor peidio eu hamddiffyn?

Ymateb

Diolch i'r Cynghorydd James Gibson-Watt am ei gwestiwn; mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani fel a ganlyn:

2015 2 Achos o Adolygiadau Barnwrol – collwyd, am gost o £90,000 (h.y. £52,000 & £ 38,000)

1 Enillwyd 1 Achos o Adolygiad Barnwrol gan y Cyngor

2016 1 Achos o Adolygiad Barnwrol a gollwyd, ond heb unrhyw gost i'r Cyngor oherwydd roedd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi tansgrifennu'r achos.

1 Achos o Adolygiad Barnwrol a enillwyd gan y Cyngor

2017 1 Achos o Adolygiad Barnwrol a gollwyd a'r gost oedd £60,000

2018 1 Achos o Adolygiad Barnwrol a gollwyd, a'r gost oedd £20,739.36
1 Achos o Adolygiad Barnwrol a enillwyd gan y Cyngor, a dyfarnwyd costau o £45,000 i'r Cyngor.

Doedd dim cwestiwn atodol.

18.6. Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r cyhoedd gan Y Cyngorydd Sir Matthew Dorrance

Dengys data a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Powys ei fod yn talu menywod 10.7% yn llai'r awr na dynion.

Pa gamau fydd y sefydliad yn eu cymryd i sicrhau y telir gweithwyr benywaidd yr un raddfa dâl â dynion?

Ymateb

Mae bwlch cyflog cymedr y Cyngor rhwng y rhywiau yn 10.72% (cyfartaledd) a bwlch cyflog canolrif (canol) yn 10.22%. Wrth ymateb i'r canlyniad hwn, cyflwynwyd adroddiad gyda'r teitl "Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau" i gyfarfod Anffurfiol y Cabinet ar 8 Mai 2018.

Mae'n bwysig nodi nad yw Bwlch Cyflog y Cyngor rhwng y Rhywiau yn golygu fod y Cyngor wedi methu talu menywod a dynion yn gydradd. Yn 2013, gorffennodd y cyngor ei delerau ac amodau Statws Sengl oedd yn cyfundrefnu telerau ac amodau gweithwyr er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pob gweithiwr dan y cytundeb. Yn unol â'r Statws Sengl, cafodd holl swyddi'r Cyngor eu gwerthuso gan ddefnyddio methodoleg HAY neu NJC, sydd yn ei dro'n golygu fod graddfa swydd i bob swydd, a chyflog cychwynnol penodol. Mae hyn yn golygu cam sylweddol i wireddu cydraddoldeb mewn perthynas â chyflog.

Yr hyn sy'n bwysig iawn yw'r ffaith fod gennym fwy o fenywod mewn swyddi gyda chyflog is na dynion, ac mae hyn yn bennaf oherwydd dosraniad gweithwyr gwrywaidd a benywaidd ar draws y sefydliad - wrth gwrs, golyga hyn fod cyflog cyfartalog menywod yn is na dynion. Mae hyn yn nodweddiadol o weithlu llywodraeth leol trwy'r DU. Yn ogystal, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fel gwlad, Cymru sydd â'r bwlch mwyaf rhwng y rhywiau yn y DU.

Fel Awdurdod, bydd angen inni ddadansoddi ein data'n ofalus er mwyn penderfynu pa raddfa neu lefel sydd â'r bwlch mwyaf rhwng y rhywiau, yn ogystal â dadansoddi cyfansoddiad y rhywiau a'r gallu i gadw gweithwyr ar bob lefel ac mewn galwedigaethau gwahanol. Mae nifer o bolisiau yn eu lle i wireddu gweithlu cytbwys a chynrychioladol ar draws y sefydliad, er bydd angen i'r Cyngor ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a'r bwriad yw delio gyda'r meysydd canlynol yn y cynllun gweithredu:

- Annog recriwtio i a chadw gweithwyr benywaidd mewn uwch swyddi a rolau prif swyddogion
- Denu ymgeiswyr mwy amrywiol trwy sicrhau fod hysbysebion am swyddi'n defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd ac y caiff swyddi eu hysbysebu fel rhai hyblyg (e.e. yn addas i weithwyr rhan-amser, rhannu swyddi, ystywyth ac ati.), mor bell ag sy'n rhesymol bosib

- Darparu cefnogaeth briodol i staff sydd â chyfrifoldebau gofal (mae'r Sefydliad Personél a Datblygiad yn amcangyfrif nad yw dwy filiwn o bobl yn y DU yn gweithio ar hyn o bryd oherwydd cyfrifoldebau gofal - menywod yw 89% o'r ddwy filiwn).

I ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance, o ran a fyddai'r Cabinet yn ymrwymo i adfer y gwir gyflog byw, dywedodd y Deiliad Portffolio taw mater i'w ystyried yng nghyllideb 2019/20 fyddai hyn.

18.7. Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Addysg a'r Gymraeg gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

A wnaiff y Cabinet gyhoeddi'r costau llawn ar gyfer rhentu hen Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph, gan gynnwys:

- 1. Costau rhent**
- 2. Costau cyfleustodau**
- 3. Costau yswiriant**
- 4. Costau atgyweiriadau a chynnal a chadw**
- 5. Costau cyfreithiol**
- 6. Unrhyw gostau eraill?**

Ymateb:

1. Costau rhent - mae'r wybodaeth yma'n sensitif o safbwynt masnachol oherwydd perchnogaeth trydydd parti
2. Costau cyfleustodau - costau nwy £5,433-13 o Fehefin 2016 hyd at Fehefin 2018 a thrydan £2,423.68 o 2016 i 2018
3. Costau yswiriant – gweler y daenlen 'Costau St Joseph 2017-18' ar gyfer dadansoddiad o'r costau sydd ynghlwm â'r agenda; y cyfanswm yw £39,385-24.
4. Costau atgyweiriadau a chynnal a chadw - gweler y daenlen 'Costau St Joseph 2017-18' ar gyfer dadansoddiad o'r costau; y cyfanswm yw £39,385-24.
5. Costau cyfreithiol - Roedd bob parti'n gyfrifol am ei gostau cyfreithiol unigol mewn perthynas â chytuno'r brydles.
6. Unrhyw gostau eraill – gweler y daenlen 'Costau St Joseph 2017-18' ar gyfer dadansoddiad o'r costau; y cyfanswm yw £39,385-24.

I ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance o ran a ddisgwylir arbed arian, dywedodd y Deiliad Portffolio eu bod yn ystyried y ffordd fwyaf gost effeithiol o redeg y gwasanaeth.

18.8. Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir John Morris

Byddwch yn ymwybodol fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi dewis cadw unrhyw symiau gohiriedig ar gyfer tai fforddiadwy a gesglir o fewn ffiniau'r parc, a phenderfynu sut a lle i'w gwario er taw Powys yw'r awdurdod tai ar gyfer ardal y parc. Maent wedi gwneud hyn ar ôl ceisio cyngor cyfreithiol, ond nid ydynt yn fodlon rhyddhau'r cyngor cyfreithiol i CSP nac i'w haelodau eu hunain hyd yn oed.

Rwyf wedi cael gwybod bod yr arian sydd ganddynt eisoes, neu daliadau sydd ar y gweill gan ddatblygiadau presennol a rhai'r dyfodol, yn dod i ryw £2 filiwn. Gan fod 80% o'r Parc Cenedlaethol o fewn Powys, byddai cyfran helaeth o'r arian hwnnw'n deillio o ardal Powys y parc.

Hyd yma, er bod APCBB wedi cadw'r arian a gasglwyd ym Mhowys ers dros 2 flynedd, maent wedi gwrthod rhyddhau unrhyw arian ar gyfer prosiect tai fforddiadwy ym Mhowys. Maent hefyd yn ennill llog o'r arian a gadwyd, ac maent yn defnyddio hyn i gyllido cyllideb APCBB, yn hytrach na'i ychwanegu at y gronfa tai fforddiadwy.

Ydych chi'n cefnogi gweithred APCBB, ac os nad ydych, pa gamau a gymerwyd gennych ers cymryd drosodd gan y deiliad portffolio blaenorol, aeth at y wasg i feirniadu'r penderfyniad i wrthod rhyddhau'r arian, a'r camau a addawyd i ddatrys y sefyllfa?

Ymateb

Bydd y Cynghorydd Morris yn ymwybodol bod cofnod i'r Arweinydd, y Cynghorydd Rosemarie Harris, wrthwynebu'r ffaith fod APCBB yn cadw'r arian yma mewn cyfarfod ffurfiol o bwyllgor cyswllt CS Powys/APCBB ar 2^{ail} Medi 2017.

Fel Deiliad y Portffolio, rwyf yn ategu ei safiad, a byddaf yn parhau i ddadlau y dylai'r Awdurdod Tai Strategol reoli'r cyllid dan sylw, h.y. Cyngor Sir Powys. Credaf fod y broses a sefydlwyd gan APCBB i ddosrannu'r symiau gohiriedig a godwyd o fewn y Parc Cenedlaethol yn fiwrocraidaidd ac yn arwain at ddyblygu ymdrechion o safbwynt yr awdurdod hwn ac awdurdodau lleol eraill, a'n partneriaid yn y cymdeithasau tai.

Yn ystod yr hydref y llynedd, cyflwynwyd cais gwerth £94,262, sef y swm oedd gan APCBB o ran awdurdodaeth cynllunio ar y pryd o arian a godwyd yn ardal Powys. Mae'r ffigur o £2 filiwn a gyfeiriwyd ato gan y Cynghorydd Morris yw'r swm y gellir disgwyl ei godi os caiff pob cynllun sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio gan APCBB ei ddatblygu. Dim ond "swm potensial" yw hwn felly.

Dengys gwybodaeth gan APCBB ar 20fed Mehefin 2018 bod y ffigur ar gyfer Powys heb newid. Rydym hefyd wedi cael gwybod nad oes system "ffenestri" o safbwynt bidio, a gellir ystyried ceisiadau pryd bynnag y bydd cyfle'n codi.

Gwrthodwyd y cais a gyflwynwyd, ar y sail nad oedd y cynllun yn golygu unrhyw fantais wirioneddol o ran nifer y cartrefi fforddiadwy, oherwydd rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 100% o ddarpariaeth fforddiadwy gan Gartrefi Melin, ac roeddem yn prynu 6 o'r cartrefi ganddyn nhw. O safbwynt cynllunio, felly, nid oedd gennym ddadl resymol yn erbyn y penderfyniad hwn.

Unwaith y byddwn yn gallu adnabod cynllun addas, sy'n cydymffurfio â Chynllun Datblygu Lleol APCBB a'r Canllawiau Cynllunio Atodol, byddwn yn cyflwyno cais arall, gyda fy nghefnogaeth lawn.

Bydd y Cyngorydd Morris yn falch i glywed y byddaf hefyd yn mynd i gyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf, ac mae'r Arweinydd a'r Cyngorydd ei hun hefyd wedi derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod, gyda chynrychiolwyr y Parc Cenedlaethol i gyflwyno ein hachos dros drosglwyddo'r symiau gohiriedig i'r Awdurdod Tai Strategol.

I ateb cwestiwn atodol y Cyngorydd Morris o ran a ddylai'r Cyngor gychwyn her gyfreithiol i adfer y symiau gohiriedig, nododd y Deiliad Portffolio ei fod yn trefnu cyfarfod gyda gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod y mater.

18.9 Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cyngorydd Sir Kelvyn Curry

Hoffwn ofyn i'r Deiliad Portffolio gadarnhau a yw Cyngor Sir Powys wedi cyflwyno ymateb ai peidio i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y newidiadau arfaethedig i gyhoeddi trwyddedau Bysiau Mini Adran 19 a 22 i ddarparwyr cludiant cymunedol, ac:

- a) Os oedd y Cyngor wedi anfon ymateb, i ddarparu copi o'r ymateb hwnnw i bob aelod, ac**
- b) Os nad oedd y Cyngor wedi anfon ymateb, eglurhad o ran pam na wnaethpwyd hyn?**

Ymateb

Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth y sector cludiant cymunedol, a hwyrach y bydd Aelodau'n ymwybodol o'r camau rydym yn eu cymryd ar hyn o bryd i geisio diogelu'r sector hwn.

Fodd bynnag, wrth drafod y mater gyda swyddogion, daethom i'r casgliad na fyddai'n briodol i CSP ymateb i'r ymgynghoriad ar drwyddedau Bysiau Mini Adran 19 a 22.

Y rheswm yw bod Cyngor Sir Powys ar hyn o bryd yn gorff sy'n cyhoeddi trwyddedau Adran 19 i'r sector cludiant cymunedol. Ar hyn o bryd mae'r trwyddedau hyn yn galluogi cynlluniau cludiant cymunedol i redeg mewn ffordd sydd wedi achosi pryder ymhlith rheoleiddwyr a'r sector masnachol. Gan fod Cyngor Sir Powys hefyd yn gwario arian sylweddol yn lleol gyda'r sector masnachol, barn y swyddogion oedd y byddai ymateb i'r ymgynghoriad efallai'n awgrymu i'r naill sector neu'r llall fod y Cyngor yn ffafrio un, ac nid y llall.

O ran y cwestiwn atodol, sef trwy beidio ymateb i'r ymgynghoriad, roedd y Cyngor yn anfon neges nad oedd yn gwerthfawrogi cludiant cymunedol. Roedd Deiliad y Portffolio'n absennol, felly cafodd ymateb ei ddrafftio a'i dosbarthu i bob aelod.

Ymateb i'r Cwestiwn Atodol

Mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad clir i'r gwasanaeth Cludiant Cymunedol, sy'n amlwg o'i weithredoedd. Mae'r Cyngor wedi rhoi cyllid grant i'r sector cludiant cymunedol (trwy PAVO) gwerth £153k y flwyddyn. Mae'r cyngor wedi

dod â'r swyddogaeth weinyddol yn ôl i'r cyngor ei hun yn ddiweddar er mwyn cynnig gwell gwerth.

18.10. Cwestiwn i'r Arweinydd gan Y Cyngorydd Sir James Gibson-Watt

A wnaiff Arweinydd y Cyngor ddarparu manylion y gost i'r Cyngor o ran cael cyngor Cwnsler mewn perthynas ag a oedd y pleidleisiau a gynhaliwyd yn CCB y Cyngor ar 17^{eg} Mai 2018 i 'gymeradwyo' penodiad grwpiau gwleidyddol o Gadeiryddion Pwyllgorau Iechyd, Gofal a Thai, a Dysgu, Sgiliau a'r Economi'r Cyngor, yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, os gwelwch yn dda?

Ymateb

Diolchaf i'r Cyngorydd James Gibson-Watt am y cwestiwn hwn, a gallaf ei hysbysu ef a'r Cyngor law cost y cyngor gan Mr James Goudie QC oedd £2615 + TAW.

Doedd dim cwestiwn atodol.

18.11. Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Addysg a'r Gymraeg gan y Cyngorydd Sir John Morris

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno fod Ysgol Uwchradd Crughywel yn ysgol lwyddiannus sy'n rhagori, er gwaetha'r ffaith mai hon yw'r ysgol sy'n derbyn y cyllid lleiaf fesul pen trwy Bowys.

Yn ystod eich ymweliad diweddar â Chyngor Tref Crughywel, gwelaf o'r cofnodion a gytunwyd gan y cyngor, ichi ddweud, wrth ateb cwestiwn ynghylch cyllid cyfalaf Ysgol Uwchradd Crughywel, o'i gymharu ag Ysgolion Uwchradd eraill yn yr ardal:

Cyfrifoldeb Powys yw darparu seilwaith ar gyfer plant Powys, nid plant o du allan i'r sir.

A yw Powys yn gwahaniaethu yn erbyn ysgolion sy'n derbyn disgyblion o du allan i'r sir felly wrth ystyried y gwariant cyfalaf; pa ysgolion sy'n derbyn disgyblion o du allan i'r sir ar draws Powys; ac a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi eich safiad yn hyn o beth?

Ymateb:

Caiff cyllid cyfalaf ar gyfer ysgolion ym Mhowys ei flaenoriaethu ar sail cyflwr, addasrwydd a chynaliadwyedd, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran buddsoddiad cyfalaf. Y broblem yn YU Crughywel, yw un o addasrwydd o ran digon o le i gymryd yr holl ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio gydag Ysgol Uwchradd Crughywel i ddod o hyd i atebion adeiladu i ddiwallu anghenion yr ysgol, ac mae'r awdurdod yn buddsoddi £1m i ddelio gyda'r anghenion hyn.

I ateb cwestiwn atodol y Cyngorydd Morris sy'n gofyn a fyddai'n ymddiheuro am ei sylwadau i Gyngor Tref Crughywel, nad oedd y Cyngor yn gallu darparu seilwaith ar gyfer plant o du allan i'r sir, dywedodd Deiliad y Portffolio y gall y

gwasanaeth ysgolion roi amcanestyniad ar sail disgyblion Powys ac nid oedd yn bosib gwybod faint o ddisgyblion o du allan i'r sir fyddai'n dod i'r ysgol efallai.

18.12. Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Addysg a'r Gymraeg gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton

Yng nghyfarfod corff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, daethpwyd â mater brys at sylw'r Llywodraethwyr, ynghylch yr estyniad cynlluniedig a gyllidir a'r bwriad i uwchraddio'r adeilad ar gyfer disgyblion presennol a darpariaeth 3+ oedd fod i gychwyn ym mis Mai eleni.

Roedd yr ysgol wedi cael ei hannog i gyflenwi darpariaeth 3+ oherwydd mae diffyg cefnogaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn yn Ne Powys. Maent wedi cyflenwi'r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn academaidd aeth heibio, ac mae Powys wedi derbyn cyllid ar gyfer y ddarpariaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Eglwys yng Nghymru a Chronfa Addysg Llangatwg wedi cefnogi cost yr estyniad a gwelliannau trwy gyfrannu £120,000 tuag at y costau cyfanswm.

Dylai'r gwaith, oedd fod i gychwyn yn ystod yr Hydref y llynedd, fod wedi cychwyn tair wythnos yn ôl, gydag addewidion y gellir cynllunio'n iawn ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf. Dylai'r blwch oedd fod i dderbyn offer ystafell ddosbarth gyrraedd ddydd Llun 25 Mehefin 2018. Pan ni ddigwyddodd hyn, roedd y Pennaeth wedi cysylltu â'r contractwr, a chael gwybod nad oedd Cyngor Sir Powys wedi awdurdodi hyn eto. Pan gysylltodd y Pennaeth â'r cyngor, ymddengys nad oedd y prosesau ariannol angenrheidiol wedi cael eu cwblhau eto. Yr ymadrodd a ddefnyddiwyd wrth siarad â'r Pennaeth oedd bod y prosiect mewn 'peryg!' oedd yn achos nid yn unig dicter, ond pryder mawr iddi hefyd.

CWESTIWN

A wnaiff y Deiliad Portffolio gadarnhau os gwelwch yn dda y bydd y prosiect adeiladu'n digwydd ar amser, ac y caiff ei gwblhau yn unol â'r cynlluniau i sicrhau y gellir cychwyn addysgu plant Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg ym mis Medi. A wnaiff hi hefyd gadarnhau y rhoddir cefnogaeth ariannol lawn i'r ysgol ar gyfer y cynnydd mewn darpariaeth, sydd heb ei derbyn hyd yma? Yr ysgol sydd wedi talu'r costau 3+ hyd yn hyn, oherwydd yr estyniad a'r gwelliannau a addawyd.

Ymateb

Mae'r awdurdod yn ymddiheuro am yr oedi o ran y gwaith cyfalaf ar adeiladau a gytunwyd ar gyfer Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg.

Y bwriad oedd gorffen y prosiect erbyn dechrau mis Medi 2018. Penodwyd contractwr i gyflawni'r gwaith, gan gychwyn ar y safle ar 23^{ain} Gorffennaf 2018 a gorffen ar 12^{fed} Hydref 2018.

Cytunwyd gyda Neuadd Gymunedol Llangatwg y gellir defnyddio'r neuadd ar gyfer y lleoliad 3+ tra bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen. O ran cynnal gwasanaeth addysgol ar gyfer yr ysgol, rydym yn llunio cynllun i alluogi cwblhau'r gwaith adeiladu mewnol yn ystod gwyliau'r haf.

Bydd blwch dur mawr fel storfa'n cefnogi'r angen i symud, a bydd y blwch ar y safle'r wythnos nesaf, a bydd yno gydol y gwaith, ac i alluogi gwacau ystafelloedd dosbarth. Bydd diwygiadau ac estyniadau'n golygu cyfleusterau toiledau ychwanegol, ac os oes angen, byddwn yn trefnu toiledau dros dro ar gyfer disgyblion er mwyn sicrhau y cynhelir cyfleusterau lles.

I ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Charlton, rhoddwyd cadarnhad gan y Deiliad Portffolio y byddai'r adran yn delio gyda chwynion rhieni, ac yn ymateb ar fater cyllido'r gwasanaeth 3+.

18.13. Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Emily Durrant

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru'n cyflwyno cyfle amserol i ddod â buddsoddiad pwysig i'n Sir. Gan ystyried y symiau enfawr sydd ar gael, a'r effaith botensial ar dirwedd economaidd a chymdeithasol Powys, pa fesurau sy'n bodoli i sicrhau agwedd gyfartal ac agored o ran dewis prosiectau a'u datblygu? A wnaiff yr Arweinydd olrhain amserlenni, prosesau gwneud penderfyniadau ac ymgynghori er mwyn blaenoriaethu pa brosiectau y bydd Cyngor Sir Powys yn argymhell eu cynnwys yn y Fargen, a'r trefniadau craffu fydd yn berthnasol, os gwelwch yn dda?

Ymateb

Mae Bargen Twf potensial ar gyfer Canolbarth Cymru'n gyfle mawr i helpu datblygu twf economaidd ar draws y rhanbarth. Bydd y fargen yn canolbwyntio ar ddod â buddsoddiad i'r rhanbarth yn ogystal â chynyddu'r gweithgarwch economaidd fydd o fudd i fusnesau lleol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, rhanddeiliaid lleol a Llywodraeth Cymru i adnabod y ffordd orau i gryfhau economi'r rhanbarth, a bydd ymgysylltiad gydag a chefnogaeth y sector preifat yn hollbwysig i'r broses hon.

Ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, mae'r Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr AECOM i lunio Cynllun Gweithredu Economaidd ar gyfer Canolbarth Cymru. Mae'r gwaith ar y gweill i adnabod y problemau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r economi ac ar ddatblygu gweledigaeth a blaenoriaethau clir ar gyfer y rhanbarth. Nod y Cynllun Gweithredu fydd datblygu rhaglen o ymyraethau strategol i helpu trawsnewid economi Canolbarth Cymru, y gellir eu cyflenwi trwy amrediad o ffynonellau cyllid gan gynnwys Bargen Twf. Cyn bo hir bydd pob aelod yn derbyn ebost ar y Cynllun Gweithredu Economaidd, fydd yn cynnwys arolwg ar-lein i gyfrannu at y broses, a byddem yn annog Aelodau I lenwi'r arolwg. Disgwylir i'r Cynllun Gweithredu Economaidd gael ei gwblhau yn yr Hydref, a lle bo'n bosib bydd yn cynnwys achosion busnes cynnar ar gyfer buddsoddiadau allweddol.

Mater o drafodaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Rhanbarth Canolbarth Cymru fydd y Fargen Twf, gyda Chynghorau Sir Powys a Cheredigion yn arwain ar ran y Rhanbarth. Mae angen cadarnhau manylion y

broses eto, er hynny, disgwylir sefydlu'r strwythurau llywodraethu dros y 12 mis nesaf a bydd angen i flaenoriaethu achosion busnes ar gyfer ymyraethau blaenoriaeth bod yn barod i'w trafod erbyn Haf 2019. Byddwn yn diweddarau Aelodau am yr ymgynghoriad arfaethedig a'r broses gwneud penderfyniadau wrth iddynt ddatblygu.

I ateb y cwestiwn atodol, cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'n hapus i gwrdd i drafod Bargen Twf Canolbarth Cymru.

18.14. **Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Addysg a'r Gymraeg gan y Cynghorydd Sir David Jones**

Ar 11 Ebrill, cyhoeddwyd y datganiad i'r wasg isod gan y Cabinet:

"Yn dilyn penderfyniad gan gabinet Cyngor Sir Powys, bydd dros £5m yn cael ei wario ar ysgolion Powys dros y tair blynedd ariannol nesaf fel rhan o gynllun gwella sylweddol.

Mewn cyfarfod yn Llandrindod heddiw (Ebrill 10) rhoddodd y cabinet ei sêl bendith i gronfa gwella flynyddol o dros £2m ar gyfer prosiectau i wella ysgolion cynradd ac uwchradd dros y ddwy flynedd ariannol nesaf gyda £1m ychwanegol ar gyfer 2020/2021.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ar faterion Addysg, y Cynghorydd Myfanwy Alexander: "Rydym yn buddsoddi mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ar hyd a lles y sir, i wella'r amgylchedd dysgu i ddysgwyr a staff.

"Rwy'n hynod falch i weld buddsoddiad i wella mynediad i'r rhai sydd ag anableddau corfforol. Mae'n bwysig bod disgyblion ag anableddau'n gallu mynd i ysgolion prif ffrwd os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny."

Bydd y gwaith sydd ar y gweill yn cynnwys £374,000 i adnewyddu Ysgol Gynradd Llangatwg gan gael gwared ar fannau anaddas, adeiladu toiledau newydd ac ardal blyneddol cynnar ychwanegol, £290,000 dros dri chyfnod i wella mynediad i gerddwyr, ehangu'r maes parcio a gosod wyneb newydd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr a £100,000 yr un ar gyfer ffensys terfyn newydd i wella diogelwch yn ysgolion Brynllwarch a Chrughywel.

Bydd £330,000 yn cael ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf i wella'r to a'r ffenestri a'r bloc gwyddoniaeth yn Ysgol Uwchradd Y Drenewydd a £300,000 yn cael ei wario dros y tair blynedd nesaf i wella'r toiledau a mynediad i'r anabl yn Ysgol Uwchradd Caereinion.

Bydd Ysgol Uwchradd Llandrindod hefyd yn elwa o dros £500,000 o fuddsoddiad i wella'r to a gwaith mewnol ynghyd â buddsoddiad o £133,000 i ehangu'r ddarpariaeth blyneddol cynnar yn Ysgol Trefonnen yn Llandrindod.

I weld rhestr lawn o'r rhaglen wella

ewch i <http://powys.moderngov.co.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=137&LLL=1>

Pwy oedd yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiad hwn i'r wasg

Ymateb

Awdurdodwyd y datganiad i'r Wasg gan Ddeiliad y Portffolio Addysg a'r Gymraeg, Y Cynghorydd Myfanwy Alexander.

I ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Jones o ran pam, wrth ystyried y dryswch o fewn y gwasanaeth ysgolion ynglŷn â'r datganiad i'r wasg, pam na chafodd ei dynnu nôl neu pam na chyhoeddwyd cywiriad, eglurodd y Deiliad Portffolio taw'r bwriad oedd cyhoeddi eglurhad atodeg, ond ni ddigwyddodd hyn.

18.15. **Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Derbynnir yn gyffredinol y bydd Brexit Heb Gytundeb yn golygu bygythiad dirfodol i ddyfodol ffermio da byw yng Nghymru

- **Ar hyn o bryd mae 90% o holl gig Cymru'n cael ei allforio i Farchnad Sengl yr UE**
- **Ar hyn o bryd mae Taliadau Fferm yr UE yn cyfateb i 80% o gyfanswm incwm ffermydd yng Nghymru**
- **Ar hyn o bryd does dim eglurder o ran y drefn ar gyfer cymorth i'r diwydiant amaethyddol wedi 2022**

Yn y cyd-destun hwn, ac wrth ystyried fod Powys yn fwy agored i anhrefn o ran y sector da byw nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru, beth mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud ar hyn o bryd i feithrin cydnerthedd a datblygu capasiti er mwyn gwarchod dyfodol ein heconomi lleol?

Ymateb

Mae Llywodraeth y DU wedi addo parhau i gyfrannu'r un cyfanswm arian i gefnogi ffermydd yn ystod oes y Senedd hon (hyd at 2022).

Mae hyn yn cynnwys yr holl gyllid a ddarperir gan yr UE a'r Trysorlys ar gyfer ffermwyr dan Golofn I a Cholofn II. Ym mhob un o weinyddiaethau'r DU, bydd cyllid Llywodraeth y DU dan yr ymrwymiad hwn yn adlewyrchu cyfraniad yr UE tuag at gymorth i ffermydd. Wrth gwrs, bydd yn rhaid i bob gweinyddiaeth benderfynu a fydd yn parhau i ymrwymo'r un elfen o'r grant bloc presennol.

Mae'r addewid hwn yn golygu gwell diogelwch a sicrwydd ar gyfer ffermwyr a thirfeddianwyr nag unrhyw le arall yn yr UE - lle mae'r cyllid ond wedi cael ei warantu hyd at 2020.

Mae angen inni ganolbwyntio ar gyfleoedd tu allan i'r UE. Bydd gan ffermwyr ryddid i dyfu, gwerthu a chynhyrchu mwy, wrth ddiogelu ein hamgylchedd yr un pryd, a hyn oll wedi'i danseilio gan y cyfle gorau posib i fasnachu'n rhydd rhag tollau a rhag rhwystrau gyda chymdogion Ewropeaidd a gweddill y byd.

Mae Cyngor Sir Powys dan arweinyddiaeth y Cynghorydd Rosemarie Harris yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i dyfu economi Powys, ac yn benderfynol o greu amgylchedd lle gall busnesau gwledig ffynnu a chynyddu eu cydnerthedd o ran yr heriau o fewn y farchnad. Bydd cyflenwi'r Fargen Twf yn elfen allweddol o'n Gweledigaeth.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn rhagweithiol o ran cefnogi economi gwledig Cymru. Yn ddiweddar cynhaliwyd trafodaeth o gwmpas y bwrdd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS (7fed Mehefin) ar bynciau Amaethyddol ac Amgylcheddol gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths. Diben y cyfarfod hwn oedd trafod materion yn ymwneud â gadael yr UE yma yng Nghymru, a chlywed sut mae rhanddeiliaid yng Nghymru'n paratoi i adael ac i ddeall mwy am brif broblemau rhanddeiliaid. Mae'n amlwg fod y ddwy lywodraeth yn cydweithio ar y materion pwysig hyn.

Doedd dim cwestiwn atodol.

18.16 Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Pobl Ifanc a Diwylliant gan y Cynghorydd Sir Gareth Jones

Tynnwyd y cwestiwn yma'n ôl, a byddai'n mynd ar agenda'r cyfarfod nesaf.

19. CAIS AM ABSENOLDEB GYDA CHANIATÂD
--

Roedd y Cynghorydd Sir G Price wedi datgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod.

Roedd y Cyngor wedi derbyn ceisiadau am absenoldeb gyda chaniatâd gan y Cynghorwyr Sir G Price a J Wilkinson. Gyda 36 o blaid, 0 yn erbyn, ac 1 yn atal pleidlais,

PENDERFYNWYD caniatáu absenoldeb o chwe mis yr un i'r Cynghorwyr Sir G Price a J Wilkinson.

Y Cynghorydd Sir DW Meredith (Cadeirydd)